# Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2024-2025

PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG CYMRU
















# Cyflwyniad gan Gadeirydd a Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC

***Rydym yn hynod falch o gyflwyno'r ail adroddiad blynyddol ar weithredu'r ddyletswydd ansawdd o fewn PCGC.***

Ers i'r Ddyletswydd Ansawdd ddod i rym ar 1 Ebrill 2023, mae wedi'i chroesawu yn PCGC. Mae'n ein galluogi i ddangos sut rydym yn rhoi'r safonau uchel o ddarpariaeth gwasanaeth yr ydym yn anelu at eu darparu i boblogaeth Cymru ar waith, ac mae'n galluogi ein staff i ddangos sut maent yn cyflawni o fewn eu his-adrannau a'u hadrannau ac i ddangos y balchder sydd ganddynt yn ansawdd eu gwaith. Dangosir hyn yn y dolenni byw yn yr Olwyn Ansawdd **tudalen 12**, lle gallwch wrando ar ein staff yn trafod sut maent yn gweithio, a myfyrio ar bwysigrwydd y Ddyletswydd Ansawdd.

Mae PCGC yn darparu portffolio o wasanaethau sy'n ehangu'n barhaus ar draws y GIG yng Nghymru, ac mae'n cynnwys gwasanaethau sy'n amrywio o Gyfreithiol i Wasanaethau'r Golchdy, o Gaffael i Fferylliaeth, o Gyfrifon Taladwy i Archwilio, o'r Gyflogres i Wasanaethau Gofal Sylfaenol, Ystadau Arbenigol a Labordai Profi Deunyddiau Llawfeddygol a llawer mwy.

Rydym wedi achub ar y cyfle a roddwyd i ni drwy weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd i gysylltu hyn â'n gwerthoedd craidd a'n hamcanion strategol, gan sicrhau egwyddor gyffredinol o ansawdd ym mhopeth a wnawn. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, a fydd ar gael i'r cyhoedd, yn tynnu sylw at rôl PCGC o fewn y GIG yng Nghymru a'r gwasanaethau a ddarparwn sy'n gwella ac yn galluogi gofal cleifion.

Rydym yn gobeithio y bydd yn rhoi'r sicrwydd ichi fod gennym ansawdd wrth wraidd yr hyn a wnawn, a'n bod yn canolbwyntio'n gyson ar wella ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn.



**Tracy Myhill OBE,**

*Cadeirydd*



**Neil Frow OBE,**

*Rheolwr Gyfarwyddwr*

## Adroddiad y Cyfarwyddwr Meddygol

Y llynedd dyfynnais Aristotle, 'Nid gweithred yw ansawdd, arferiad ydyw', ac rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno bod yr adroddiad hwn ar gyfer 2024/25 yn dangos, ar gyfer PCGC, fod athroniaeth ac arfer ansawdd yn arferiad mewn gwirionedd.

Wrth imi fyfyrio ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud ers cynhyrchu ein hadroddiad blynyddol cyntaf, mae'n amlwg bod y staff yn PCGC wedi croesawu defnyddio'r 12 parth a galluogwr ansawdd iechyd a gofal fel ffordd o sicrhau cynnydd wrth fonitro, sicrhau, gwella a chynllunio'r gwasanaethau a ddarparwn i GIG Cymru.

Nod ein hadroddiad blynyddol cyntaf oedd arddangos cynifer o'n hisadrannau â phosib, gan ddangos ehangder y gwasanaethau a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac effaith ein gwasanaethau anghlinigol ar y GIG yng Nghymru. Nod yr adroddiad oedd darparu 'pytiau bach' o wybodaeth, gan ddefnyddio fideos byr a thestun cysylltiedig i ddangos sut rydym yn defnyddio'r Ddyletswydd Ansawdd i lywio ein cynllunio a'n penderfyniadau. Mae sefydliadau eraill y GIG bellach yn defnyddio'r dull hwn fel ffordd hygyrch o gyflwyno gwybodaeth gymhleth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein grŵp llywio ansawdd mewnol wedi ehangu, gydag aelodau newydd yn ymuno wrth i'r adrannau weld gwerth dangos sut rydym yn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.

Rydym wedi cael sylwadau cadarnhaol gan staff ar ein dull o weithredu'r ddyletswydd ansawdd, gan gynnwys:

- Mae'n rhoi ffocws i'n meddyliau
- Mae'n ailwampio ein hymagwedd
- Mae defnyddio fideos yn y gwaith adrodd bob amser a'r adroddiad blynyddol yn rhoi cipolwg gwirioneddol ar ystyr ansawdd yng ngwaith PCGC
- Mae defnyddio fideos byr yn gwneud eich ymagwedd at ansawdd yn ddealladwy ac yn hygyrch

Mae adroddiad eleni yn dangos eto sut mae ein gwasanaethau yn anelu at fod y gorau y gallant fod:

- Rydym wedi cadw ein gwobr rhagoriaeth mewn gwasanaethau i gwsmeriaid ac wedi cynnal neu wedi cyflawni lefelau uwch o gydymffurfiaeth ym mhob maes.
- Rydym wedi cyflawni a chadw nifer o achrediadau a gwobrau allanol mawreddog, gan gynnwys achrediadau ISO ar gyfer systemau rheoli amgylcheddol yn ein His-adran Labordai Profi Dyfeisiau Llawfeddygol.
- Mae Gwasanaethau Caffael wedi cynnal eu trwydded gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Gofal Iechyd yn seiliedig ar Arferion Dosbarthu Da (GDP).
- Unwaith eto, rydym wedi ymgorffori'r ddyletswydd o egwyddorion ansawdd wrth ddatblygu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ac yn defnyddio ein proses adolygu chwarterol i sicrhau bod ein mentrau ansawdd yn cael eu cyflawni a rhoi sicrwydd i Fwrdd y Bartneriaeth.
- Eleni, rydym wedi dechrau'r broses hunanasesu ar gyfer pob is-adran yn erbyn y safonau ansawdd iechyd a gofal. Bydd hyn yn parhau tan 2025, gan ffurfio ein llinell sylfaen ar gyfer gwelliant parhaus, unwaith eto gan gysylltu â Chynllun Tymor Canolig Integredig pob is-adran (Gweler Atodiad A) a sicrhau cynaliadwyedd adrodd bob amser.
- Rydym wedi parhau i lanlwytho adroddiadau is-adrannol i'n gwefan SharePoint fel y gall yr isadrannau ddysgu gan ei gilydd.

***Rwy'n gobeithio y byddwch yn cael ein hail adroddiad blynyddol yn galonogol, ac y byddwch yn gallu deall beth mae ansawdd yn ei olygu i'n gwasanaethau anghlinigol yn bennaf, a sut yr ydym yn cynllunio, darparu, sicrhau a gwella ansawdd yn barhaus.***

## Ein Gwerthoedd

***Gwrando a Dysgu***
Ystyried yn barhaus a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd popeth a wnawn.

***Cymryd Cyfrifoldeb***
am benderfyniadau dewr a thosturiol a gwneud i'r pethau iawn ddigwydd.

***Gweithio gyda'n gilydd***
Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr.

***Arloesi***
Bod yn ddewr a chreadigol trwy welliant parhaus.

## Ein Gwasanaethau


- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Gwasanaethau'r Golchdy
- Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Cyfrifon Taladwy
- Cyflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth
- Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
- Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Gwasanaethau Archwilio Meddygol
- Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Buddion Staff
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Gwasanaethau Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi
- Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
- e-Alluogi
- Gwasaanaethau Technegol Fferylliaeth
- Cronfa Risg Cymru
- Yr Academi Gyllid (wedi'i lletya)
- Gwasanaethau Ystadau Arbennig
- Cynllu Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd

## Cyflawniadau Allweddol 2024-2025

Roedd yn bleser gennym gyflwyno ein hadroddiad blynyddol cyntaf ynghylch y ddyletswydd ansawdd yn brydlon, a nodi iddo gael croeso brwd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru a chan Lywodraeth Cymru.

Nodwyd yn arbennig ein defnydd arloesol o fideos a blogiau fideo yn ein blwyddyn gyntaf, ac mae wedi parhau i ddylanwadu ar y gwaith o gynhyrchu adroddiad eleni, wrth i ni ganolbwyntio ar hygyrchedd i’r cyhoedd. Cydnabuwyd hyn gan adolygiad Llywodraeth Cymru o adroddiadau’r llynedd.

- Rydym wedi parhau i gyflwyno sesiynau ffurfiol ac anffurfiol i’n staff, gan ymestyn hyn o’r bwrdd i is-adrannau a thimau.
- Rydym wedi defnyddio gweithdai i annog staff i ddangos eu hymrwymiad i ansawdd trwy gynhyrchu eu blogiau a’u blogiau fideo eu hunain, gan rannu’r rhain ar SharePoint i alluogi arferion gorau.
- Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad sefydliadol a chyfreithiol i’r Iaith Gymraeg trwy sicrhau bod yr adroddiad a phob gohebiaeth allanol arall ar gael yn Gymraeg.
- Mae tîm gweithredu’r ddyletswydd ansawdd wedi parhau i gwrdd, ac mae’r hyrwyddwyr a’r arweinwyr ym mhob isadran yn rhaeadru eu gwybodaeth am y ddyletswydd ansawdd ar draws eu meysydd arbenigedd.




## Cynllunio a gwneud penderfyniadau o safon

Mae’r CTCI a’r adroddiad ynghylch y ddyletswydd ansawdd yn parhau i gael eu hintegreiddio i’n harferion gweithio eleni. Ceir heriau parhaus o ran gwella gwasanaethau a chyfyngiadau ariannol; fodd bynnag, rydym wedi sicrhau, drwy ddefnyddio’r ddyletswydd ansawdd a’r olwyn ansawdd i lywio’r broses o wneud penderfyniadau, fod ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn wedi’i gynnal a’i yrru ymlaen i sicrhau bod gwasanaethau’n gwella.



## Adroddiadau a Ysgogir gan Ansawdd i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn safle unigryw o fewn y GIG yng Nghymru. Cawn ein lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (VUNHST) ac rydym yn adrodd trwy eu Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Adroddiad blynyddol ynghylch y Ddyletswydd Ansawdd. Mae ein strwythur is-adrannol yn galluogi darparu amrywiaeth o wasanaethau ar draws GIG Cymru gyfan. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae gan y tîm Gwasanaethau Ystadau Arbenigol rôl arweiniol dros Gymru gyfan o ran adeiladau, trafnidiaeth, Seilwaith, cynllunio Ystadau a'r defnydd o dir, gan ddarparu cyngor a chymorth i wella amgylcheddau gofal iechyd. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i ddatblygu a chefnogi sicrwydd eiddo ar gyfer ystâd o dros 2 filiwn metr sgwâr.
- Mae ein gwasanaethau golchi dillad yn rhychwantu GIG Cymru gyfan. Maent yn casglu, trin a danfon llieiniau i ganolfannau clinigol, gan gynnwys ysbytai mawr a safleoedd cymunedol. Maent wedi gwneud gwaith sylweddol i leihau gwastraff ac ailddefnyddio gwres o ddŵr gwastraff; gellir darllen rhagor o wybodaeth am hyn ar ein sianel YouTube gyda dolenni i'r Olwyn Ansawdd (gweler isod).
- Datgarboneiddio – Gan fod PCGC yn gyfrifol am Wasanaethau Ystadau Arbenigol a chaffael o fewn y GIG yng Nghymru, mae ganddi ddylanwad mawr ar feysydd fel trafnidiaeth, teithio ac adeiladau. Amlinellir hyn yn fanylach yng Nghynllun Gweithredu Datgarboneiddio 2024-2026.

## Systemau Rheoli Ansawdd

Mae gan bob un o'n hisadrannau eu System Rheoli Ansawdd (QMS) eu hunain sydd wedi'i theilwra i anghenion gwahanol iawn pob isadran, yn amrywio o QMS clinigol ar gyfer ein Gwasanaethau Fferyllol a'n Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol i'r Is-adrannau Caffael a Gweithlu anghlinigol yn bennaf. Mae amrywiaeth yr is-adrannau o fewn PCGC yn gofyn am hyblygrwydd o ran gweithredu er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cynnal a'u gwella ar draws GIG Cymru. Mae rhannu arferion gorau ar draws is-adrannau yn elfen allweddol o'n strategaeth gwella ansawdd barhaus. Gwneir hyn trwy gyfarfodydd uwch arweinwyr, mewn cyfarfodydd adrannol lleol a thrwy gyfarfodydd tîm Gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd. Yn fwy lleol, bydd hyn yn cael ei wreiddio trwy ddysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein.

## Adroddiadau a Ysgogir gan Ansawdd

Un o'r prif egwyddorion yr ydym wedi'u cymhwyso fel rhan o'n hadroddiad ynghylch y Ddyletswydd Ansawdd yw defnyddio adrodd bob amser, sef rhywbeth rydym eisoes yn ei wneud mewn llawer o'n hisadrannau, ac sydd wedi'i hen sefydlu. Mae hyn yn cefnogi'r systemau rheoli ansawdd sydd ar waith a, gyda'r CTCI, yn rhoi sicrwydd a thystiolaeth bod prosiectau a mentrau ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni mewn modd amserol. Mae'r cyflwyniadau fideo ar gyfer y flwyddyn hon ar gael yma yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae ein fideo Is-adran Datrysiadau Cynhyrchiant Digidol a'r Gweithlu yn dangos yn effeithiol iawn sut y maent yn ymdrin â'u proses Adroddiadau a Ysgogir gan Ansawdd, gan gyfeirio'n benodol at y Ddyletswydd Ansawdd.



## Rheoli ansawdd a defnyddio data i wella ansawdd

Rydym yn parhau i gynnal adolygiadau chwarterol is-adrannol sy'n rhoi sicrwydd o gydymffurfio. Yn ystod y broses hon, caiff adrannau eu dwyn i gyfrif am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sy'n seiliedig ar y parthau ansawdd, sef diogel, amserol, effeithiol, effeithlon a theg a chanolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hwn yn fecanwaith parhaus y mae PCGC yn ei ddefnyddio i sicrhau bod ansawdd wrth wraidd ein darpariaeth gwasanaeth.

Mae'r DPA yn llywio prosiectau gwella ansawdd sy'n bwydo i fesurau ansawdd gwell ac yn llywio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r uwch dîm arwain a bwrdd y bartneriaeth. Mae'r CTCI, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, yn cefnogi'r egwyddorion o sicrhau gwerth, arloesi a rhagoriaeth drwy bartneriaeth, ac mae hefyd wedi'i ategu gan y dull a ddefnyddir gan PCGC i'r Ddyletswydd Ansawdd. Mae hyn yn dangos integreiddiad pellach egwyddorion y Ddyletswydd Ansawdd i fusnes bob dydd PCGC.

Mae natur amrywiol PCGC yn golygu bod pob is-adran yn cael ei dwyn i gyfrif am gyfres unigryw o fesurau, sy'n cynnwys elfennau fel absenoldeb salwch, dadansoddeg ar gyfer gwella, gwelliannau i wasanaethau Cymru gyfan a chydymffurfio â safonau mewnol ac allanol. Mae pob is-adran yn defnyddio eu setiau data eu hunain i nodi perfformiad a sicrhau gwella ansawdd.

Isod, rydym yn amlinellu 3 phrosiect o fewn PCGC sy'n dangos sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data i lywio gwelliannau mewn ansawdd a gwasanaethau, o fewn PCGC ac ar draws y GIG yng Nghymru.

## Datrysiadau Digidol a Chynhyrchiant y Gweithlu

Mae'r gwasanaethau cenedlaethol a ddarperir gan y tîm Datrysiadau Cynhyrchiant Digidol a'r Gweithlu yn hanfodol i alluogi gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru. Mae'r tîm yn defnyddio Log Gweithredu Gwella Ansawdd (QIAL) sy'n defnyddio Microsoft Lists fel offeryn i alluogi hysbysiadau awtomatig i gael eu defnyddio i sicrhau bod Gwelliannau Ansawdd yn cael eu gyrru ymlaen mewn modd amserol. Fe wnaethant ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd yn eu model darparu gwasanaeth fel rhan o'r ymgyrch i wella gwasanaethau'n barhaus. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn sicrhau bod yr archwiliadau mewnol a gynhelir yn cael eu gwirio'n allanol. Mae 60% o'r gwelliannau i wasanaethau a nodwyd wedi'u gweithredu hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu safle Rheoli Ansawdd sy'n caniatáu amlygrwydd cynnydd a rhannu arfer gorau a chyfieithu'r dudalen e-amserlennu ar y fewnrwyd a hysbysiadau systemau i sicrhau bod y system yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg (2016). Bydd datblygiadau yn y dyfodol sydd ar y gweill ar gyfer 2025-2026 yn cynnwys datblygu ffyrdd o awtomeiddio tasgau trafodion, lansio llwybr portffolio Cymru gyfan ar gyfer Meddygon Rhyngwladol a hwyluso gostyngiad mewn gwariant ar asiantaethau ledled Cymru. Mae hyn yn rhan o gynllun y timau Datrysiadau Cynhyrchiant Digidol a'r Gweithlu ar gyfer gwelliant parhaus, gan ddefnyddio data a chadw ansawdd wrth galon eu gwaith.





## Y Gwasanaeth Archwilio Meddygol a Thimau Adolygu Marwolaethau

Dyma enghraifft o gydweithio rhwng y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol (MES) sy'n adolygu'r holl farwolaethau yng Nghymru (ac eithrio'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt gan Grwner Ei Fawrhydi), a thimau Adolygu Marwolaethau ledled Cymru – ateb unwaith i Gymru go iawn a fydd yn safoni'r rhyngwyneb rhwng y tîm MES a'r timau Adolygu Marwolaethau, gan ddefnyddio'r Ddyletswydd Ansawdd fel y fframwaith cydlynol. Mae hyn yn cefnogi'r categorïau a'r dadansoddiadau a ddefnyddir ar gyfer dysgu o farwolaethau ar draws yr holl ddarparwyr gofal yng Nghymru. Mae defnyddio'r Ddyletswydd Ansawdd i gefnogi hyn yn sicrhau ymagwedd unffurf a chyson i alluogi dadansoddi thematig. Defnyddir y chwe pharth ansawdd (diogel, amserol, effeithiol, effeithlon a theg, ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn) i gategoreiddio adborth a ddarperir gan yr MES i'r darparwr gwasanaeth. Yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth hon, gall y darparwr gofal ddefnyddio'r chwe galluogwr (arweinyddiaeth, gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, dysgu, gwella ac ymchwil a dull systemau cyfan) i gefnogi adolygiad strwythuredig pellach o farwolaethau. Mae hyn yn galluogi dysgu thematig sydd wedi'i gategoreiddio, gan ddefnyddio'r data a ddarperir i wella gofal a thriniaeth cleifion, mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae hyn yn sicrhau dull system gyfan o ddysgu o ddigwyddiadau a ffocws ar ansawdd drwyddi draw.



## Gwasanaethau Caffael

Mae'r Tîm Gwasanaethau Caffael yn defnyddio data fel rhan annatod o'u System Rheoli Ansawdd i ddarparu gwasanaeth proffesiynol o safon i gwsmeriaid, ac yn y pen draw i gleifion, yn seiliedig ar egwyddor Iawn y Tro Cyntaf.

Mae'r System Rheoli Ansawdd yn defnyddio data a dadansoddeg i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ac i ddangos y buddion a sicrheir fel rhan o'r broses gynllunio. Sicrheir Sicrwydd Ansawdd trwy fframwaith rheoli perfformiad a fframwaith rheoli risg, ac mae rheoli ansawdd yn cael ei ategu gan ddefnyddio dangosfyrddau ac adroddiadau llif gwaith. Mae gwella ansawdd yn cael ei fesur trwy amrywiaeth o fesurau gan gynnwys adolygiad parhaus, diweddaru sgiliau staff a sicrhau bod Adolygiadau Gwerthuso a Datblygu Personol (PADRs) yn cael eu cynnal, gan greu amgylchedd dysgu ar gyfer staff.

Mae cylch 3 blynedd o gynllunio Ansawdd ar waith, wedi'i ategu gan gynllun cyhoeddedig sy'n bodloni gofynion ISO 9001 (dyfarniad allanol) i'w adolygu gan reolwyr. Mae hyn wedyn yn cefnogi cynhyrchu'r CTCI. Defnyddir archwilio trydydd parti ac archwilio mewnol i sicrhau ansawdd gwasanaethau.



## Adolygiadau Ansawdd Allanol, achrediadau a gwobrau

### Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid (CSE)

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein cwsmeriaid a'n partneriaid wrth wraidd popeth a wnawn. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dangos hyn, yn 2023, gwnaethom geisio ddilysiad allanol o'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Llwyddodd y sefydliad cyfan i ennill Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Rydym wedi cynnal y cysylltiad cynhenid rhwng CSE a'r ddyletswydd ansawdd dros y cyfnod hwn, ac eto rydym wedi ennill achrediad CSE ar gyfer y sefydliad cyfan.

Mae ein gwefan SharePoint fewnol yn cysylltu CSE a'r ddyletswydd ansawdd, gan bwysleisio'r gyd-ddibyniaeth rhwng y ddau. Mae hefyd yn atgoffa rhanddeiliaid mewnol am sut y gallwn ddefnyddio'r gwaith a wneir ar gyfer CRhB fel enghreifftiau ar gyfer y ddyletswydd ansawdd ac i'r gwrthwyneb.

Bydd yr adborth gan aseswyr CSE yn parhau i gael ei ddefnyddio fel adborth i wella ein prosesau, a byddwn yn parhau i ddefnyddio ein systemau adrodd bob amser i lywio hyn. Mae'r adroddiad CSE hefyd yn dangos y cysylltiad a'r cydweithio rhwng yr is-adrannau amrywiol yn PCGC.

Isod, ceir rhagor o enghreifftiau o'r Adolygiadau Ansawdd Mewnol ac Allanol, yr achrediadau a'r dyfarniadau a ddyfarnwyd i is-adrannau a staff yn PCGC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn dangos ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn yn PCGC.

| Cyflawniad | Is-adran | Meysydd Ansawdd | Galluogwyr Ansawdd |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad i geisio achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid (CSE) ar draws PCGC, a'i gyflawni. | Ar draws PDGC | • Teg<br>• Canolbwyntio ar yr unigolyn | • Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant<br>• Gwybodaeth |
| Datblygu system adfer dŵr ac ynni ar gyfer Gwasanaethau Golchdy. BS14065:2016 ar gyfer systemau rheoli biohalogi | Gwasanaethau Ystadau Arbenigol | • Effeithiol<br>• Effeithlon<br>• Yn ddiogel | • Gwybodaeth<br>• System gyfan<br>• Dysgu, gwella ac ymchwil |
| Cynnal achrediadau Is-adrannol – mae'r rhain yn gweithredu fel sicrwydd ansawdd gweladwy | Ar draws PCGC | • Canolbwyntio ar yr unigolyn Diogel<br>• Effeithiol | • Dysgu, gwella ac ymchwil<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant<br>• System Gyfan |
| Codi llais heb ofn | Pobl a Datblygu Sefydliadol | • Yn ddiogel<br>• Teg | • Arweinyddiaeth<br>• Y Gweithlu<br>• Diwylliant |

| Cyflawniad | Is-adran | Meysydd Ansawdd | Galluogwyr Ansawdd |
|---|---|---|---|
| Mae SMTL wedi cyflawni. ISO/IEC 17025:2017<br><br>Profi a graddnodi a systemau rheoli amgylcheddol<br><br>Dangosodd archwiliad UKAS nad oedd unrhyw ddiffyg cydymffurfio ag un mân argymhelliad.<br><br>(mae'r lefel hon o gydymffurfiaeth ar gyfer sefydliad yn anghyffredin) | Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol | • Diogel<br>• Amserol<br>• Effeithlon<br>• Effeithiol | • Gwybodaeth<br>• System gyfan<br>• Dysgu, Gwella ac ymchwil |
| Monitro a rheoli ansawdd ar draws y busnes a nodi meysydd i'w gwella<br><br>ISO 9001 | Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | • Effeithlon<br>• Effeithiol<br>• Teg<br>• Yn ddiogel<br>• Amserol | • Gwybodaeth<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant |
| Mae gan y Gwasanaethau Caffael safonau ISO lluosog a safonau eraill, gan gynnwys<br><br>ISO 9001 Rheoli Ansawdd<br><br>ISO 45001 Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol<br><br>STS Safon Diogelwch Bwyd<br><br>Trwydded MHRA yn seiliedig ar Arferion Dosbarthu Da ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cludo Nwyddau Peryglus. | Gwasanaethau Caffael | • Yn ddiogel<br>• Amserol<br>• Effeithlon<br>• Effeithiol<br>• Teg<br>• Canolbwyntio ar yr unigolyn | • Gwybodaeth<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant<br>• Dysgu, Gwella ac Ymchwil<br>• Y Gweithlu<br>• System Gyfan |
| Dangosodd archwiliad UKAS nad oedd unrhyw ddiffyg cydymffurfio ag un mân argymhelliad (mae'r lefel hon o gydymffurfiaeth ar gyfer sefydliad yn anghyffredin) | Tîm Canolog Gwasanaethau E-fusnes | • Effeithiol<br>• Effeithlon<br>• Diogel<br>• Amserol | • Gwybodaeth<br>• System gyfan<br>• Arweinyddiaeth<br>• Y Gweithlu |
| Wedi cynnal achrediad ar gyfer rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau Lexel Cymdeithas y Cyfreithwyr. | Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg | • Amserol<br>• Effeithiol<br>• Effeithlon<br>• Teg<br>• Canolbwyntio ar yr unigolyn | • Arweinyddiaeth<br>• Y Gweithlu<br>• Diwylliant<br>• Gwybodaeth<br>• Dysgu, gwella ac ymchwil<br>• Dull system gyfan |

Fel enghraifft o natur gadarn yr asesiadau allanol hyn, aseswyd ein tîm Cyfreithiol a Risg, sy'n darparu gwasanaeth ar draws GIG Cymru, dros gyfnod o 3 diwrnod. Mae hwn yn asesiad blynyddol sy'n ategu'r asesiad 5 diwrnod a gynhelir bob 3 blynedd. Mae'r aseswr yn cyfweld ag aelodau staff o bob lefel, yn dewis grŵp o achosion cyfreithiol ar hap i'w hadolygu a hefyd yn asesu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle, gan sicrhau proses asesu lawn a gwrthrychol.

Er bod y rhain yn ffurfiol, yn fewnol ac yn allanol, mae'r adrannau hyn ac is-adrannau eraill o fewn PCGC hefyd yn ymgymryd â mathau eraill o sicrwydd ansawdd mewnol. Mae hyn yn cynnwys y gwaith a wneir gan y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol sydd, yn feintiol ac yn ansoddol, yn mesur ymatebion i arolygon a gwerthusiadau gan gynnwys yr arolwg Pobl a Datblygiad Sefydliadol, arolwg Staff GIG Cymru, gwerthusiadau o brofiadau ac effaith cyrsiau, amseroedd ymateb pwyntiau gweithredu ac ansawdd siaradwyr allanol. Mae'r asesiadau hyn yn rhoi adborth i'r sefydliad, cyfranogwyr cyrsiau a'r arolwg a staff, gan ganiatáu ar gyfer gwell darpariaeth gwasanaeth.

## Lleisiau Staff

***Dangosir y 12 safon iechyd a gofal sy'n cynnwys y 6 mesur ansawdd a'r 6 galluogwr allweddol a nodir yn y Ddyletswydd Ansawdd yn y cylch mewnol a'r cylch allanol yn y drefn honno ar yr olwyn isod.***

### Y 6 mesur ansawdd yw:

- **Diogel -** Mae hwn yn canolbwyntio ar osgoi niwed y gellir ei atal, cael prosesau a gofal yn iawn, a dysgu o ddigwyddiadau a phryderon i atal ailadrodd.
- **Amserol –** Disgrifir hyn fel darparu gofal o ansawdd uchel o fewn yr amserlen gywir.
- **Effeithiol –** Mae hyn yn adlewyrchu'r defnydd o arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys atal yn ogystal â thriniaeth.
- **Effeithlon** – dull sy'n seiliedig ar werthoedd i wella canlyniadau i bobl.
- **Teg –** darparu cyfle cyfartal a hawliau dynol.
- **Canolbwyntio ar yr Unigolyn –** diwallu anghenion pobl.

### Y 6 galluogwr yw:

- **Gweithlu –** Sicrhau bod y gweithlu'n fedrus ac ar gael i ddarparu gofal a chymorth i'r rhai sy'n darparu gofal.
- **Arweinyddiaeth –** gweledigaeth glir gyda llywodraethu ac atebolrwydd wedi'u gwreiddio yn y sefydliad.
- **Diwylliant –** Systemau o ansawdd a diogelwch mewn ffordd gefnogol sy'n galluogi rhannu syniadau newydd a dysgu o gamgymeriadau.
- **Gwybodaeth –** Defnyddio data a gwybodaeth i lywio ansawdd a datblygiad gwasanaethau.
- **Dysgu a Gwella –** Gwella ansawdd er mwyn darparu gwasanaethau a chanlyniadau o safon.
- **Dull system gyfan –** Gwella ansawdd ar draws y system gofal iechyd i wella canlyniadau poblogaeth.

***Gellir archwilio'r rhain ymhellach trwy glicio ar y ddolen ganlynol:***

[Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023]



***Archwiliwch yr olwyn isod (drwy glicio ar bob adran) i glywed staff PCGC yn esbonio sut mae ansawdd yn allweddol i'w gwaith ar ran GIG Cymru a beth mae'n ei olygu iddyn nhw, neu i weld dolenni sy'n esbonio sut mae ansawdd yn cael ei ddangos yn PCGC.***



## Arweinyddiaeth

Mae'r segment hwn yn dangos effaith y strategaeth dysgu a datblygu, sy'n cefnogi arweinyddiaeth dosturiol ac effeithiol ac yn hwyluso datblygiad staff ar draws y sefydliad i alluogi ein hamcanion i gael eu cyflawni mewn ffordd ystyrlon a chynaliadwy.

## Gweithlu

Mae hyn yn dangos cysylltiad clir rhwng y Ddyletswydd Gofal a gwella gwasanaethau. Mae'n diffinio'r cysylltiadau rhwng y cylch archwilio mewnol ac allanol ac ansawdd a gwella gwasanaethau.

## Diwylliant

Dangos gwerth cydymffurfio â Mesurau'r Gymraeg 2011 a'r Safonau a Strategaethau cysylltiedig i'r sefydliad er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad ac er budd defnyddwyr gwasanaeth a chleifion y GIG yng Nghymru.

## Gwybodaeth

Amlygir pwysigrwydd yr agweddau hyn yn y fideo byr hwn, a gyflwynir yn y Gymraeg a'r Saesneg, am ein tîm E-fusnes Canolog. Mae aelodau'r tîm yn cyflwyno sut maent yn gweithio gyda'r Ddyletswydd Ansawdd mewn golwg a sut mae'r Ddyletswydd wedi'i hymgorffori yn y gwaith a wnânt.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

Mae'r wybodaeth hon yn dangos sut mae'r hyn a ddysgwyd o archwilio wedi arwain at welliannau yn y modd y darperir gwasanaethau ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae hefyd yn ategu cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Ceir esboniad hefyd o sut mae'r cylch archwilio presennol wedi arwain at flaengynllunio fel rhan o'r broses gwelliant parhaus a'r System Rheoli Ansawdd sydd ar waith.



## Dull system gyfan

Mae hyn yn dangos gwaith yr Uned Gyfieithu Gymraeg wrth gefnogi a galluogi'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y GIG yng Nghymru, trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Chyrff Iechyd eraill ac yn fewnol wrth ddatblygu sgiliau ein gweithlu i allu cyfathrebu'n ddwyieithog.

## Diogel

Hwylusodd y tîm Cyfreithiol a Risg hyfforddiant i staff meddygol i hyrwyddo dull diogel a chyson o roi caniatâd gwybodus. Fel rhan o hyn, gwnaethant egluro gwybodaeth am ganiatâd gwybodus a risg materol a'r angen i ddefnyddio iaith briodol i roi gwybodaeth i gleifion. Darparodd hyn hyfforddiant arbenigol i'n hymarferwyr meddygol i hyrwyddo arferion gorau a diogel.

Sylwch fod y cyflwyniad hwn wedi'i wneud gan ddefnyddio siaradwyr cyfreithiol arbenigol allanol, ac nid yw ar gael yn Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn ar gyfer y dyfodol.

## Amserol Effeithiol Effeithlon

Mae'r fideo byr hwn, a gyflwynir gan aelodau o'n Tîm Gwasanaethau'r Golchdy, yn dangos yn effeithiol iawn agweddau amserol, effeithiol ac effeithlon ar y Ddyletswydd. Mae'r fideo yn dangos ehangder effaith gwasanaethau'r golchdy ar draws GIG Cymru a'r ffyrdd y maent yn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth er mwyn gwella cynaliadwyedd a lleihau costau i'r GIG.

## Teg

Mae ein Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gweithio i sicrhau ein bod yn deall demograffeg y gweithlu yn PCGC, sy'n ein galluogi i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyfiawn i'r holl staff, yn deg ac mewn ffordd anwahaniaethol, gan helpu'r sefydliad i fod yn gyflogwr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Mae hwn yn trafod esblygiad yr Adolygiad GWerthuso a Datblygu Personol (PADR) o fewn PCGC, sydd wedi'i gynllunio i sicrhau ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sgyrsiau effeithiol rhwng rheolwyr a staff, ac alinio nodau â blaenoriaethau PCGC.



## Y Dyfodol

Yn sgil adroddiad y llynedd ynghylch y Ddyletswydd Ansawdd, rydym wedi parhau â'n taith ansawdd ac yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad PCGC a'i staff i ddarparu gwasanaeth o safon i'n partneriaid a'n cleifion ar draws GIG Cymru.

Dywedodd Muhammed Yunus, enillydd Gwobr Nobel, "Offer a gwasanaethau gofal iechyd gwirioneddol fforddiadwy ond o ansawdd uchel yw'r unig ffordd y gellir darparu gofal iechyd o safon i bawb." Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yn ei hagwedd ddyheadol barhaus i sicrhau ymagwedd gynaliadwy o safon at wasanaethau'r GIG yng Nghymru, yn modelu'r egwyddor hon.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi dangos bod sicrhau ansawdd o fewn PCGC yn cwmpasu'r pedair prif broses:

- **Cynllunio Ansawdd (QP)**: trwy ein CTCI, gan ddangos y ffordd rydym wedi parhau i ymgorffori ansawdd yn ein diwylliant sefydliadol.
- **Sicrwydd Ansawdd (QA):** o'n model adrodd bob amser, i'n hachrediadau mewnol ac allanol.
- **Rheoli Ansawdd (QC)** Sicrhau bod ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda mesurau ansawdd mewn golwg, a bod ansawdd wrth wraidd ein patrwm adolygu rheolaidd ar gyfer is-adrannau.
- **Gwella Ansawdd (QI):** bod yn ganolog i'n trafodaethau mewn adolygiadau chwarterol, yr Uwch Grŵp Arwain a Bwrdd y Bartneriaeth.

Gan edrych ymlaen at ein cyfnod adrodd nesaf, byddwn yn adolygu sut y gallwn sicrhau y gellir gwneud y ffordd rydym yn adrodd ynghylch ansawdd yn fwy effeithiol trwy ddata (QC), wrth ddatblygu dangosfyrddau i adlewyrchu ein taith ansawdd (QA) ac i sicrhau mesuradwyedd a fydd yn ysgogi gwelliant pellach (QI Bydd y dull hwn yn cyd-fynd â'n proses adrodd is-adrannol chwarterol a oedd yn cyd-fynd â'r CTCI a'r DPA.

Cafwyd ymateb da i'n hadroddiad blaenorol, ac edrychwn ymlaen at ddatblygu adroddiadau yn y dyfodol ymhellach yn unol â'r adborth a roddwyd. Rydym wedi trafod cysylltu â Llais gyda'r bwriad o ymgysylltu â nhw i sicrhau adrodd sy'n cael ei ysgogi gan ddinasyddion, a byddem yn rhagweld y bydd hyn yn cryfhau dealltwriaeth dinasyddion a'u hymgysylltiad â PCGC.

Yn unol â'n cydweithwyr ledled Cymru, byddwn yn ceisio mireinio ein hunanasesiadau yn erbyn y matrics aeddfedrwydd ansawdd a pharhau â'n dysgu ar draws yr is-adrannau. Bydd yr hunanasesiadau diwygiedig yn rhoi ffocws i bob is-adran ar gyfer eu hagendâu ansawdd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn fyr, mae hwn yn adroddiad ciplun sy'n dangos dull ansawdd rhai o'n his-adrannau yn PCGC. Mae ein hamrywiaeth yn atal un ymagwedd at ansawdd, gyda gwasanaethau'n amrywio o effaith uniongyrchol ar gleifion a'r gymuned i effaith anuniongyrchol arnynt, ond mae'n amlwg bod yr un safonau uchel a'r diwylliant o wella ansawdd yn barhaus yn parhau ar draws y sefydliad.



*Atodiad A*

# Atodiad Dyletswydd Ansawdd CTCI 2025-28



GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership



***Mae'r atodiad hwn yn dangos aliniad pellach i'n hymrwymiad i'r Ddyletswydd Ansawdd o fewn PCGC. Rydym wedi gallu mapio'r safonau iechyd a gofal perthnasol drwy'r CTCI i nodi ffrydiau gwaith cysylltiedig.***

Gweithlu
Workforce

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Datblygu a digideiddio platfformau dysgu a fydd yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn awr ac yn y dyfodol. Nod hyn, ymhlith manteision eraill, yw galluogi trosglwyddo cofnodion dysgu.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Mae System Rheoli Ansawdd Datrysiadau'r Gweithlu a Chynhyrchiant Digidol (DWPS) yn parhau i ddatblygu. Bydd hyn yn cefnogi gweithredu fframwaith i fonitro, asesu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus, a thrwy hynny, bydd yn gwella gwasanaethau gofal iechyd ar draws GIG Cymru a sicrhau bod cyfrifoldebau'r Is-adrannu o dan y Ddyletswydd Ansawdd yn cael eu cyflawni.

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**
Mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn canolbwyntio ar ddarparu gwydnwch ychwanegol yn adran Dihalogi'r Tîm Peirianneg. Mae hyn yn unig yn caniatáu ar gyfer datblygu ein staff presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â'i fod wedi'i anelu at gynhyrchu capasiti'r gwasanaeth sy'n cefnogi canlyniadau cleifion ledled Cymru.

**Cyfrifon Taladwy** Cynyddu gwasanaethau buddion staff ar draws GIG Cymru ac asesu dichonoldeb creu porthol fel rhan o'r broses porth digidol.

**Cyfrifon Taladwy** Mae'r tîm yn bwriadu sicrhau y bydd holl staff yr is-adran yn cael hyfforddiant "prynu i dalu" perthnasol a chadarn. Mae hyn wedi cynnwys creu fframweithiau hyfforddi ac adolygu ac adnewyddu hyfforddiant sefydlu.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan**
Ymchwilio i opsiynau i gefnogi cynllunio olyniaeth ar gyfer y tîm rheoli golchdy presennol.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Cefnogi ail-gaffael a gweithredu Datrysiad Health Roster ar sail Cymru Gyfan – datrysiad unwaith i Gymru.

## Gwybodaeth
## Information

**Gwasanaethau Fferylliaeth** Mae gwaith yn parhau i gefnogi rheolaeth y gadwyn gyflenwi ledled Cymru a fydd yn meintioli cyfeintiau a galluogi gwydnwch ar gyfer y mater cymhleth o brinder meddyginiaethau. Bydd hyn yn gofyn am gydgrynhoi data cadarn a chywirdeb data.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan**
Ymchwilio a chasglu data ar ddaliadau stoc llieiniau strategol i greu gwydnwch ar draws y gwasanaeth.

**Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes**
Ymestyn cymorth roboteg i brosesau Rheolaeth Ariannol (FMS) y Sefydliad Iechyd, a fydd yn cynnwys cymorth desg wasanaeth a gweithredu a dylunio prosesau cyllid a chaffael newydd ar blatfform Microsoft Power.

**Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Caffael a Chanolog** Bwriedir cynyddu nifer yr anfonebau a brosesir drwy e-fasnach o 10%, a fydd yn sicrhau darpariaeth ddi-dor wrth ryddhau adnoddau a gwella dadansoddi data a gwneud penderfyniadau.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan**
Bydd cymorth TG ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo o gymorth y Bwrdd Iechyd Lleol i gymorth gan PCGC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i gysylltu ag un rhif unigol ar gyfer Cymru a gellir cefnogi ceisiadau mewn modd effeithlon a phrydlon.

Datrysiadau Gweithlu Digidol Cyflwyno Health Roster ar draws PCGC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a darparu model cymorth canolog cyson ar gyfer pob ymholiad ynghylch amserlenni.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol**
Cefnogi ail-gaffael a gweithredu Datrysiad Health Roster ar sail Cymru Gyfan – datrysiad unwaith i Gymru.

## Diwylliant
## Culture

**Datrysiadau Gweithlu Digidol**
Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn Rhaglen Recriwtio Ryngwladol Cymru Gyfan. Bydd hyn yn cefnogi cynaliadwyedd gweithlu ar draws GIG Cymru.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol** Datblygu a gweithredu Codi Llais heb Ofn ar gyfer pob hyfforddai meddygol a deintyddol yng Nghymru, gan sicrhau bod staff a reolir o dan y model Un Cyflogwr Arweiniol yn cael eu cefnogi a'u trin yn deg.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan**
Datblygu'r tîm peirianneg trwy ymchwilio i weithrediad graddau peirianneg rhan amser ochr yn ochr â gwaith, gan greu diwylliant a chyfleoedd dysgu.

**Cyfrifon Taladwy** Cynyddu gwasanaethau buddion staff ar draws GIG Cymru ac asesu dichonoldeb creu porthol fel rhan o'r broses porth digidol.

**Gwasanaethau Cyflogaeth** Mae'r Gwasanaethau Cyflogaeth wedi adnewyddu Contract Cyfraith drwy ymarfer caffael sydd bellach ar waith i ategu'r maes cymhleth o Hawl i Weithio ar gyfer staff nad ydynt yn dod o'r DU.

**Caffael** Bydd caffael yn cefnogi unrhyw fentrau caffael Prynu i Dalu (P2P) sy'n deillio o'r gwahanol grwpiau llywodraethu.

## Ymagwedd systemau cyfan
Whole systems approach

**Cymorth e-Fusnes y Tîm Canolog**
Cydlynu datblygiad a chymorth desg wasanaeth ar gyfer Gwelliant Gwasanaeth Parhaus Sganio er Diogelwch (SCI) ac adolygu gofynion gweinyddion.

**Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** Mae'r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol yn arwain grŵp sy'n edrych ar gaffael gynau y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer GIG Cymru. Mae hyn yn cefnogi'r targedau datgarboneiddio a'r gwaith brys newid hinsawdd.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol**
Arwain datblygiad Rhaglen Datrysiadau Trawsnewid y Gweithlu; symud o'r cam cynllunio i'r cyfnod gweithredu.

**Gwasanaethau Cyflogaeth**
Datblygu rhaglen recriwtio barhaus i wella gwasanaethau sy'n hybu ein heffeithlonrwydd gwasanaeth trwy arloesi ac awtomeiddio digidol o systemau etifeddol a newydd i gefnogi model gwasanaeth a rennir yn well.

**Cyfrifon Taladwy** Bwriedir parhau i gynyddu cyfran y cerbydau Trydan/Hybrid sydd ar y fflyd Aberthu Cyflog i 90% yn ystod 2025-2026.

**Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd** Cefnogi agenda cynhyrchiant y gweithlu meddygol cenedlaethol ac arwain mentrau cenedlaethol, hyrwyddo cydweithio a chyflwyno system gadarn i nodi bylchau yn y rota a phrinder arbenigeddau ar lefel genedlaethol a lleol.
Datrysiadau Gweithlu Digidol
Cefnogi ail-gaffael a gweithredu Datrysiad Health Roster ar sail Cymru Gyfan – datrysiad unwaith i Gymru.

**Gwasanaeth Atal Twyll y GIG** Archwilio darpariaeth gwasanaethau ymchwilio ariannol arbenigol i wasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Gwella, dysgu ac ymchwil
Learning, improvement and research

**Gwasanaethau Gofal Sylfaenol**
Mae Gwasanaethau Gofal Cleifion yn cyflwyno ac yn ymgorffori ymchwil a datblygu o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer y pedwar grŵp contractwyr. Nod hyn yw manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gynaliadwy.

**Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** Mae'r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol yn arwain grŵp sy'n edrych ar gaffael gynau y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer GIG Cymru. Mae hyn yn cefnogi'r targedau datgarboneiddio a'r gwaith brys newid hinsawdd.

**Gwasanaethau Fferylliaeth** Mae'r Uned Meddyginiaethau Gwasanaethau Fferyllol yn parhau i ddatblygu cynhyrchion newydd gyda phortffolio cyfredol o 4 cyffur a 7 llinell cynnyrch yn parhau. Mae hwn yn gosod safon ar gyfer arferion gorau mewn partneriaeth â'r Byrddau Iechyd ac yn helpu i gyflwyno cynhyrchion newydd a fydd o fudd i gleifion ledled Cymru.

**Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Caffael a Chanolog** Mae fframwaith hyfforddi yn cael ei ddatblygu i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol ar gyfer yr holl staff Caffael a Chyfrifon Taladwy sy'n ymwneud â phrynu-i-dalu er mwyn gwella profiad y cwsmer ac arwain at ostyngiad mewn galwadau i'r ddesg wasanaeth.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r holl Brifysgolion, gan fapio gofynion e-ddysgu cenedlaethol GIG Cymru a sicrhau cydymffurfiaeth cyn lleoli a throsglwyddo cydymffurfiaeth.

Arweinyddiaeth
Leadership

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Arwain datblygiad Rhaglen Datrysiadau Trawsnewid y Gweithlu, gan symud o'r cam cynllunio i'r cyfnod gweithredu.

**Cyfrifon Taladwy** Bwriedir parhau i gynyddu cyfran y cerbydau Trydan/Hybrid sydd ar y fflyd Aberthu Cyflog i 90% yn ystod 2025-2026.

**Archwilio a Sicrwydd** Hyfforddi ac uwchsgilio'r holl staff i ychwanegu gwerth at ddarpariaeth archwilio trwy fwy o effeithlonrwydd gan alluogi i feysydd risg allweddol gael eu targedu.

**Tîm Canolog E-fusnes** Arwain adolygiad o strwythur y tîm i adlewyrchu newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth a chefnogaeth i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni gofynion cwsmeriaid.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol** Creu cymuned o ymarfer i gefnogi sefydliadau'r GIG i roi adroddiadau am sefydliadau ar waith, gan fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau a gwybodaeth i gychwyn hyn. Bydd hyn yn galluogi asesiad diogel o ddata swyddi gwag ar lefelau lleol a chenedlaethol ac yn cefnogi cynlluniau gweithlu strategol.

**Gwasanaethau Fferylliaeth** Sefydlu gwasanaeth monitro microbiolegol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau fferyllol i ddadansoddi ac adrodd ar samplau a gynhyrchir o unedau gweithgynhyrchu/paratoi. Mae hyn yn hanfodol i gefnogi a chynnal yr uned fferylliaeth radio newydd.

**Gwasanaethau Fferylliaeth** Arwain ar ddatblygu cyflenwadau meddyginiaethau cenedlaethol i sicrhau cadernid meddyginiaethau i sicrhau bod stociau'n cael eu rheoli'n effeithiol ar adegau o argyfwng.








**Gwasanaethau Fferylliaeth** Bydd Gwasanaethau Fferylliaeth yn parhau i weithio i gynnal y trwyddedau a'r cofrestriadau rheoleiddiol a phroffesiynol gofynnol (gan gynnwys yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), trwyddedu'r Swyddfa Gartref a chofrestriad Fferylliaeth y Cyngor Fferyllol Cyffredinol). Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau bod ein gwasanaethau fferyllol yn cynnal safon o ansawdd fel y gwelir o adolygiadau allanol.

**Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd** Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu gwell dulliau cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth i gwsmeriaid a staff yn cael ei rheoli, yn glir ac yn hygyrch. Bydd hyn yn gwella llif gwybodaeth ac yn sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn cael negeseuon cyson. Bydd hyn hefyd yn lleihau rhwystredigaeth ac yn cynyddu lles.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol** Creu cymuned ymarfer i gefnogi sefydliadau'r GIG i roi adroddiadau am sefydliadau ar waith a mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau a gwybodaeth i gychwyn hyn. Bydd hyn yn galluogi asesiad diogel o ddata swyddi gwag ar lefelau lleol a chenedlaethol ac yn cefnogi cynlluniau gweithlu strategol.

**Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd** Cefnogi agenda cynhyrchiant y gweithlu meddygol cenedlaethol ac arwain mentrau cenedlaethol, hyrwyddo cydweithio a chyflwyno system gadarn i nodi bylchau yn y rota a phrinder arbenigeddau ar lefel genedlaethol a lleol.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Datblygu a digideiddio platfformau dysgu a fydd yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol. Nod hyn, ymhlith manteision eraill, yw galluogi trosglwyddo cofnodion dysgu.

**Gwasanaethau Fferylliaeth** Sefydlu gwasanaeth monitro microbiolegol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau fferyllol i ddadansoddi ac adrodd ar samplau a gynhyrchir o unedau gweithgynhyrchu/paratoi. Mae hyn yn hanfodol i gefnogi a chynnal yr uned fferylliaeth radio newydd.

**Effeithiol**
**Effective**

**Cyfrifon Taladwy** Bwriedir parhau i gynyddu cyfran y cerbydau Trydan/Hybrid sydd ar y fflyd Aberthu Cyflog i 90% yn ystod 2025-2026.

**Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Caffael a Chanolog** Bwriedir cynyddu nifer yr anfonebau a brosesir drwy e-fasnach o 10%, a fydd yn sicrhau darpariaeth ddi-dor wrth ryddhau adnoddau a gwella dadansoddi data a gwneud penderfyniadau.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan** Bydd systemau monitro amser real yn cael eu datblygu ar gyfer olrhain y defnydd o ynni ar draws cyfleustodau a defnyddwyr mawr. Bydd hyn yn caniatáu rhannu'r defnydd o ynni gyda chwsmeriaid ac yn dangos bod y gwasanaeth yn chwarae rhan weithredol wrth leihau ei ôl troed carbon ledled Cymru.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan** Sefydlu daliadau stoc llieiniau strategol llinell sylfaen i greu gwydnwch gwasanaeth. Bydd hyn yn atal amharu ar ofal cleifion os bydd chwalfa ar safle golchi dillad.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Cefnogi ail-gaffael a gweithredu Datrysiad Health Roster ar sail Cymru Gyfan – datrysiad unwaith i Gymru.

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** Rhoi arweiniad a chymorth i sefydliadau'r GIG drwy gyflwyno canllawiau cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gweithio i Wella (PTR). Bydd hyn yn cefnogi rheolaeth deg, effeithiol ac effeithlon o achosion.

**Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** Nodi atebion i ysgogi awtomeiddio a chefnogi sefydlu contract Offthalmig Cymru i sicrhau bod hawliadau'n cael eu cyflwyno a'u talu'n amserol ac yn effeithiol.

**Amserol**
**Timely**

**Caffael** Mae'r tîm yn bwriadu cynyddu gwerth yr ad-daliadau a enillir 10% erbyn mis Mawrth 2026, gyda llinell sylfaen wedi'i phennu ar ddiwedd mis Mawrth 2025.

**Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Caffael a Chanolog** Bwriedir cynyddu nifer yr anfonebau a brosesir drwy e-fasnach o 10%, a fydd yn sicrhau darpariaeth ddi-dor wrth ryddhau adnoddau a gwella dadansoddi data a gwneud penderfyniadau.

**Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Caffael a Chanolog** Mae fframwaith hyfforddi yn cael ei ddatblygu i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol ar gyfer yr holl staff Caffael a Chyfrifon Taladwy sy'n ymwneud â phrynu-i-dalu er mwyn gwella profiad y cwsmer ac arwain at ostyngiad mewn galwadau i'r ddesg wasanaeth.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan** Bydd cymorth TG ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo o gymorth y Bwrdd Iechyd Lleol i gymorth gan PCGC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i gysylltu ag un rhif unigol ar gyfer Cymru a gellir cefnogi ceisiadau mewn modd effeithlon a phrydlon.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Cefnogi ail-gaffael a gweithredu Datrysiad Health Roster ar sail Cymru Gyfan – datrysiad unwaith i Gymru.

**Gwasanaethau Cyflogaeth** Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i allu'r system gyflogres bresennol i gynnal tâl wythnosol Cymru gyfan i weithwyr y Banc Nyrsio a rhyddhau cyflogau'n gynt a hyrwyddo gostyngiad mewn gwariant ar asiantaethau.

Effeithlon
Efficient

**Cyfrifon Taladwy** Bwriedir cynyddu nifer y cyflenwyr sy’n defnyddio meddalwedd cymodi datganiadau newydd i wella effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth.

**Cyfrifon Taladwy** Mae cynlluniau ar waith i ail-gaffael y feddalwedd paru taliadau a datganiadau dyblyg er mwyn darparu proses Caffael i Dalu well a mwy effeithlon.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan** Bydd cymorth TG ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo o gymorth y Bwrdd Iechyd Lleol i gymorth gan PCGC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i gysylltu ag un rhif unigol ar gyfer Cymru a gellir cefnogi ceisiadau mewn modd effeithlon a phrydlon.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan** Bydd systemau monitro amser real yn cael eu datblygu ar gyfer olrhain y defnydd o ynni ar draws cyfleustodau a defnyddwyr mawr. Bydd hyn yn caniatáu rhannu defnydd ynni gyda chwsmeriaid ac yn dangos bod y gwasanaeth yn chwarae rhan weithredol wrth leihau ei ôl troed carbon ledled Cymru.

**Archwilio a Sicrwydd** Hyfforddi ac uwchsgilio’r holl staff i ychwanegu gwerth at ddarpariaeth archwilio trwy fwy o effeithlonrwydd gan alluogi i feysydd risg allweddol gael eu targedu.

**Gwasanaethau Caffael a’r Gwasanaeth Negesydd Iechyd (HCS)** Cefnogi agenda cynhyrchiant y gweithlu meddygol cenedlaethol ac arwain mentrau cenedlaethol, hyrwyddo cydweithio a chyflwyno system gadarn i nodi bylchau yn y rota a phrinder arbenigeddau ar lefel genedlaethol a lleol.

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** Rhoi arweiniad a chymorth i sefydliadau’r GIG drwy gyflwyno canllawiau cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gweithio i Wella (PTR). Bydd hyn yn cefnogi rheolaeth deg, effeithiol ac effeithlon o achosion.



Teg
Equitable

**Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd**
Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu gwell dulliau cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth i gwsmeriaid a staff yn cael ei rheoli, yn glir ac yn hygyrch. Bydd hyn yn gwella llif gwybodaeth ac yn sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn cael negeseuon cyson. Bydd hyn hefyd yn lleihau rhwystredigaeth ac yn cynyddu lles.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan** Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth o wahanu llieiniau yn cael ei gyflwyno i bob cwsmer, a fydd yn sicrhau eu bod i gyd yr un mor ymwybodol o'r angen i wahanu llieiniau yn effeithiol ac i atal llieiniau rhag cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yn amhriodol. Bydd hyn yn helpu i leihau ôl troed carbon y gwasanaeth.

**Archwilio a Sicrwydd** Bydd y tîm yn datblygu perthynas â darparwyr archwilio mewnol eraill ar gyfer nodi arferion gorau, er mwyn sicrhau y gall yr adran barhau i ychwanegu gwerth gyda'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu trwy feincnodi cymharol.

**Archwilio a Sicrwydd** Cefnogi sicrwydd integredig ar draws sefydliadau GIG Cymru, a dod â chyfres o ffynonellau sicrwydd ynghyd. Bydd hyn yn helpu i sefydlu trefniadau sicrwydd cadarn a lleihau prosesau amrywiol.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol** Cefnogi'r gwaith o ail-gaffael a gweithredu Datrysiad Health Roster ar sail Cymru Gyfan – datrysiad unwaith i Gymru.

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** Rhoi arweiniad a chymorth i sefydliadau'r GIG drwy gyflwyno canllawiau cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gweithio i Wella (PTR). Bydd hyn yn cefnogi rheolaeth deg, effeithiol ac effeithlon o achosion.

**Gwasanaeth Archwilio Meddygol** Adolygu ac alinio'r holl adroddiadau allbwn â'r parthau Dyletswydd Ansawdd a sicrhau bod hyn yn bodloni gofynion cwsmeriaid/rhanddeiliaid, gan ysgogi arferion gorau a sicrhau canlyniadau dysgu ehangach.



Person ganolog
Person centred

**Cyfrifon Taladwy** Cynyddu gwasanaethau buddion staff ar draws GIG Cymru ac asesu dichonoldeb creu porthol fel rhan o'r broses porth digidol.

**Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Caffael a Chanolog** Mae fframwaith hyfforddi yn cael ei ddatblygu i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol ar gyfer yr holl staff Caffael a Chyfrifon Taladwy sy'n ymwneud â phrynu-i-dalu er mwyn gwella profiad y cwsmer ac arwain at ostyngiad mewn galwadau i'r ddesg wasanaeth.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan**
Cynhelir adolygiad patrwm sifftiau i sicrhau bod oriau gweithredu yn cyfateb i'r galw a'r capasiti, gyda rota wedi'i gynllunio ac ystyriol a ddylai ganiatáu ar gyfer oriau gwaith o fewn oriau gweithredu arferol. Bydd hyn yn caniatáu lle ar gyfer goramser os oes angen wrth gefnogi cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

**Archwilio a Sicrwydd** Hyfforddi ac uwchsgilio'r holl staff i ychwanegu gwerth at ddarpariaeth archwilio trwy fwy o effeithlonrwydd, gan alluogi i feysydd risg allweddol gael eu targedu.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol**
Arwain datblygiad Rhaglen Datrysiadau Trawsnewid y Gweithlu, gan symud o'r cam cynllunio i'r cyfnod gweithredu.

**Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd** Cefnogi agenda cynhyrchiant y gweithlu meddygol cenedlaethol ac arwain mentrau cenedlaethol, hyrwyddo cydweithio a chyflwyno system gadarn i nodi bylchau yn y rota a phrinder arbenigeddau ar lefel genedlaethol a lleol.

**Gwasanaeth Archwilio Meddygol**
Adolygu ac alinio'r holl adroddiadau allbwn â'r parthau Dyletswydd Ansawdd a sicrhau bod hyn yn bodloni gofynion cwsmeriaid/rhanddeiliaid, gan ysgogi arferion gorau a sicrhau canlyniadau dysgu ehangach.

**Gwasanaethau Gofal Sylfaenol**
Datblygu gwasanaethau deallusrwydd i ategu a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithlu strategol Gofal Sylfaenol a chefnogi cynaliadwyedd.



*Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn addysgiadol ac yn rhoi cipolwg ar ein gwaith i ddangos, sicrhau a gwella ansawdd yn barhaus y gwasanaethau y mae PCGC yn eu darparu.*

*Os oes gennych gwestiynau ar gynnwys yr adolygiad hwn, cysylltwch â:*

**Shelley Jones**
**Rheolwr Busnes i'r Cyfarwyddwr Meddygol**

02921 500500

shelley.jones2@wales.nhs.uk

www.nwssp.wales.nhs.uk

NHS Wales Shared Services Partnership

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
4–5 Charnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ

*Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC.*
*nwssp.communications@wales.nhs.uk*